**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**National Assembly for Wales**
Health and Social Care Committee

Vaughan Gething AC
Y Dirprwy Weinidog Iechyd

XX Mawrth 2016

Annwyl Vaughan,


**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: ymchwiliad dilynol i berfformiad y gwasanaethau ambiwlans**

Diolch i chi am eich ymateb ar 18 Chwefror i lythyr y Pwyllgor ar ei ymchwiliad dilynol i berfformiad y gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu eich ymateb a'r ffordd adeiladol rydych wedi mynd i'r afael â'r saith maes allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad. Yn ogystal, mae'n croesawu'r ffaith eich bod wedi derbyn neu dderbyn yn rhannol pump o'r chwe chasgliad sy'n nodi bod angen mwy o waith.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad pellach ar rai meysydd, ac mae'r manylion wedi'u nodi yn yr Atodiad. A fyddech cystal ag ymateb cyn diddymiad y Cynulliad ar 5 Ebrill 2016?

Yn gywir,



**David Rees AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

# Atodiad

## Casgliad 1: Dangosyddion data a pherfformiad

Mae'r Pwyllgor yn falch bod y Dirprwy Weinidog wedi derbyn elfennau o'i gasgliad sy'n ymwneud â dangosyddion data a pherfformiad, ac o weld y cynnydd a wnaed ar ddatblygu dangosyddion ansawdd.

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ddadl mai bwriad rhyddhau data yn chwarterol yw amlygu tueddiadau ystadegol dros gyfnod hwy, ond mae'n siomedig nad oes modd rhyddhau data AQI bob mis. Mae'n ailddatgan ei bryderon ynghylch goblygiadau posibl hyn o ran tryloywder ac atebolrwydd.

Yn ystod yr ymchwiliad, roedd tystiolaeth a gyflwynwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ('WAST') yn dangos bod perfformiad yn erbyn targedau amser ymateb, fesul awdurdod lleol, yn cael ei gasglu a'i fod ar gael yn ystod mis cyntaf y treial. Mae'r Pwyllgor yn gofyn i'r Dirprwy Weinidog nodi pam nad oes modd cyhoeddi data amseroedd ymateb fesul ardal awdurdod lleol yn fisol.

## Casgliad 3: Arweinyddiaeth, Newid Sefydliadol a Staffio

Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw'r Dirprwy Weinidog wedi derbyn ei gasgliad. Mae'r Pwyllgor yn llwyr dderbyn mai cyfrifoldeb gweithredol WAST yw'r trefniadau hyfforddi ac amserlennu staff, ond byddai'r Pwyllgor yn croesawu mwy o eglurder gan y Dirprwy Weinidog ar fanylion y sicrwydd y bydd yn ceisio mewn perthynas â staffio, hyfforddiant ac amserlennu. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu eglurhad ar sut y mae'r Dirprwy Weinidog yn disgwyl i WAST fynd i'r afael â'r bylchau mewn staffio a nodwyd yn ystod yr ymchwiliad, gan gynnwys yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer hynny.

## Casgliad 5: Trosglwyddo cleifion a llwybrau

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Dirprwy Weinidog yn derbyn ei gasgliad ond mae'n ailddatgan ei farn y dylai data o'r math yma fod ar gael fel mater o drefn, yn fisol yn ddelfrydol. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod data ar berfformiad yn erbyn y targedau trosglwyddo yn cael eu casglu yn lleol a'u cynnwys yn yr adroddiadau perfformiad rheolaidd sy'n cael eu cyflwyno i'r Byrddau Iechyd yn eu cyfarfodydd Bwrdd, ond nad yw'r wybodaeth honno'n cael ei chyhoeddi mewn un man hygyrch.

## Casgliad 6: Modelau Defnydd o Ambiwlansys

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod mai cyfrifoldeb y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ('EASC') a WAST yw cyhoeddi'r adroddiad asesu ar brosiect 'Explorer' Cwm Taf. Fodd bynnag, o ystyried arferion da niferus y prosiect, mae'r Pwyllgor yn annog y Dirprwy Weinidog i sicrhau bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi a'i ddosbarthu'n eang.